



17 Awst 2017

Annwyl ,

ATISN 11410 Gohebiaeth Band B rhaglen "Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif"

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 20 Gorffennaf 2017.
Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- copïau o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Llywodraeth Cymru at awdurdodau lleol, rhwng 1af Ionawr 2016 hyd at heddiw, ynghylch ceisiadau ar gyfer Band B y rhaglen "Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif"

Rwyf am eich hysbysu bod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r wybodaeth ganlynol fod yn esempt o'r gofynion datgelu

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r esemptiad
Cynigion cychwynnol Band B yr Awdurdod Lleol cyflwynwyd ym Mis Rhagfyr 2016	s35 – Llunio polisi llywodraeth

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ynghylch y cydbwysedd o ran budd cyhoeddus. Oherwydd yr angen i ystyried, ar sail holl amgylchiadau'r achos, beth yw'r cydbwysedd o ran budd cyhoeddus mewn perthynas â'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru ymateb i'ch cais o fewn 20 diwrnod gwaith.

Rwy'n gobeithio anfon ateb atoch erbyn 14 Medi 2017.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb

hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio freedomofinformationofficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir